

Sgan uwchsain mesenterig

Beth yw hwn?

Uwchsain mesenterig yw sgan o'r pibellau gwaed sy'n cyflenwi'r stumog a'r coluddyn. Gellir galw'r sgan hwn hefyd yn sgan deublyg neu Doppler.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi gofyn am y prawf hwn oherwydd ei fod yn amau y gallai fod gennych gulhau neu rwystr yn un o'r pibellau gwaed abdomenol hyn.

Sut mae uwchsain yn yr abdomen yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol neu wyddonydd dan hyfforddiant (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Mae angen mynediad i'ch abdomen arnom felly gofynnir i chi godi'ch crys-t. Bydd hancesi papur yn cael eu defnyddio i amddiffyn eich dillad yn ystod y sgan. Efallai y bydd yn rhaid i'r person sy'n gwneud y sgan bwyso ar eich bol i gael delwedd well o'r bibell waed. Ni ddylai hyn fod yn boenus ond os ydyw, rhowch wybod i ni. Bydd y sgan yn cymryd tua 15-30 munud.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol neu'r gwyddonydd dan hyfforddiant yn rhoi sylwadau ar y canfyddiadau ac yn



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

ysgrifennu adroddiad a fydd ar gael i'r meddyg neu'r nyrs a ofynnodd am y sgan.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board